# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau Cabinet | Dyddiad: | 22 Mai 2023 |
| | | Deialu Union: | 01824712568 |
| | | e-bost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Cyfeiriaf at y rhaglen ar gyfer cyfarfod y **CABINET** sydd i'w gynnal am **10.00 am, DYDD MAWRTH, 23 MAI 2023 yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO** ac ryw'n amgáu'r adroddiad canlynol.

| **Rhif Agenda** | **Eitem** |
|---|---|
| **5** | **CANLYNIAD ADOLYGIAD PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU O BENDERFYNIAD CABINET SY'N YMWNEUD Â'R CEISIADAU AR Y RHESTR FER AR GYFER CYLLID O'R GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN** (Tudalennau 3 - 8)<br>Ystyried canlyniad yr adolygiad o'r penderfyniad a gymerwyd gan y Cabinet ar 25 Ebrill 2023 yn berthnasol i Geisiadau ar y Rhestr Fer ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin sydd wedi bod yn destun craffu ac wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar 18 Mai 2023. |

Yn gywir

G Williams
Swyddog Monitro

**AELODAETH**

**Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Gwyneth Ellis | Barry Mellor |
| Gill German | Win Mullen-James |
| Elen Heaton | Rhys Thomas |
| Julie Matthews | Emrys Wynne |
| Jason McLellan | |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **23 Mai 2023** |
| **Cadeirydd y Pwyllgor Craffu** | **Y Cynghorydd Joan Butterfield, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Lisa Jones, Pennaeth Dros Dro Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Rhian Evans, Cydlynydd Craffu** |
| **Teitl** | **Canlyniad Adolygiad Pwyllgor Craffu Partneriaethau o Benderfyniad Cabinet sy'n ymwneud â'r Ceisiadau ar y Rhestr Fer ar gyfer Cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Casgliadau Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn dilyn ei adolygiad o benderfyniad y Cabinet ar 25 Ebrill 2023 yn ymwneud â'r 'Ceisiadau ar y Rhestr Fer ar gyfer Cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin'.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Cyflwyno i'r Cabinet gasgliadau ac argymhellion Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn dilyn ei adolygiad o benderfyniad y Cabinet yn ymwneud â'r 'Ceisiadau ar y Rhestr Fer ar gyfer Cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin'.

2.2 Gofyn i'r Cabinet adolygu ei benderfyniad gwreiddiol gan ystyried casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cabinet yn cadarnhau ei benderfyniad ar 25 Ebrill 2023 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r prosiectau sydd ar y rhestr fer a luniwyd gan y Grŵp

Partneriaeth Craidd i'w cymeradwyo; ac wrth wneud hynny, ei fod yn cytuno bod:

3.2 gwybodaeth am y casgliadau gwerthuso yn ymwneud â phob cais unigol a dderbyniwyd ar gyfer cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei rannu gyda'r holl gynghorwyr sir ar unwaith;

3.3 gwybodaeth yn ymwneud â threfniadau llywodraethu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei rannu gyda'r holl gynghorwyr sir;

3.4 pob Grŵp Ardal Aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw risgiau a nodwyd yn ymwneud â phrosiectau unigol ac am gynnydd o ran eu gallu i gyflawni wrth symud ymlaen;

3.5 y Cynllun Cyfathrebu yn ymwneud â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei rannu gyda'r holl gynghorwyr sir; a bod

3.6 yr Arweinydd, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol a Chyfarwyddwr Corfforaethol: yr Amgylchedd a'r Economi yn cysylltu ag aelodau lleol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau dirprwyedig sydd eu hangen, fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Cabinet ar 25 Ebrill 2023.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar 25 Ebrill 2023 ystyriodd y Cabinet adroddiad 'Ceisiadau ar y Rhestr Fer ar gyfer Cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin'.

4.2 Wedi trafod y mater penderfynodd y Cabinet ei fod yn:

*(a) "cadarnhau ei fod wedi deall y broses ymgeisio a llunio rhestr fer ac yn cymeradwyo bod y gweithdrefnau hynny'n deg ac agored;*

*(b) cytuno i ariannu'r prosiectau a roddwyd ar y rhestr fer gan y Grŵp Partneriaeth Craidd (Atodiad C yr adroddiad), a*

*(c) rhoi pwerau dirprwyol i'r Arweinydd i wneud penderfyniadau dilynol, mewn ymgynghoriad ag Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol a Chyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd a'r Economi. Efallai y bydd angen y penderfyniadau hyn pe bai'r amgylchiadau a nodwyd ym mharagraffau 4.9, 4.10 a 4.11 yr adroddiad yn digwydd."*

4.3 Mae gweithdrefn 'galw i mewn' y Cyngor yn diffinio'r broses os yw'r Pwyllgor Craffu'n dymuno arfer ei bwerau statudol i adolygu neu graffu ar

benderfyniadau gweithredol, a gofyn i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ailystyried penderfyniad a wnaed, cyn iddo gael ei weithredu.

4.4 Cyhoeddwyd penderfyniad y Cabinet ar wefan y Cyngor ar 27 Ebrill 2023. Rhwng 28 Ebrill a 2 Mai 2023, derbyniwyd e-byst 'Rhybudd o Alw i Mewn' yn ymwneud â'r penderfyniad uchod gan y nifer angenrheidiol o gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet. Yr oedd hyn o fewn yr amserlen o 5 niwrnod gwaith a nodir yn 'Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn' y Cyngor. Y rhesymau dros Alw'r Penderfyniad i Mewn oedd:

"Mae dyraniad o 25.6 miliwn wedi ei wneud i Sir Ddinbych drwy Gronfa Ffyniant y DU. Mae'n rhaid cadw at broses agored a thryloyw ar gyfer dyrannu'r cyllid hwnnw.

Diffyg dealltwriaeth o'r broses ymgeisio a llunio rhestr fer. Nid oes unrhyw dystiolaeth o fatrics sgorio, ac fe'i disgrifiwyd fel "Celf, nid Gwyddoniaeth". Dim digon o dystiolaeth ynglŷn â sut y dyfarnwyd a chymeradwywyd prosiectau. Diffyg tystiolaeth yn alinio'r broses gyda chanllawiau Llywodraeth y DU. Dim tystiolaeth o hawl ymgeiswyr i apelio na chasglu gwybodaeth ychwanegol i ategu'r ceisiadau. Diffyg ymgynghori gyda'r holl aelodau yn y broses."

4.5 Mae gweithdrefn 'galw i mewn' y Cyngor yn nodi y dylid cynnal cyfarfod arbennig o bwyllgor craffu o fewn 5 niwrnod gwaith o dderbyn y Rhybudd o Alw Penderfyniad i Mewn oni bai bod fod gan bwyllgor craffu gyfarfod wedi ei drefnu o fewn y cyfnod hwnnw. Mae'r weithdrefn hefyd yn nodi y gellir ymestyn y cyfnod hwn os yw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad a Chadeirydd y pwyllgor craffu yn cytuno i estyniad. Er mwyn hwyluso'r gwaith o ddarparu digon o wybodaeth gefndir i alluogi'r Pwyllgor i adolygu sail penderfyniad y Cabinet yn fanwl, cytunwyd ar estyniad i'r cyfnod. O ganlyniad, ystyriwyd y penderfyniad gan Bwyllgor Craffu Partneriaethau yn y cyfarfod ar 18 Mai 2023. Gweler yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, gan gynnwys y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd, yma (eitem 6 ar y rhaglen).

4.6 Cafwyd trafodaeth helaeth yn y cyfarfod ar faterion yn ymwneud â'r canlynol:

- y broses ymgeisio ar gyfer cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin

- alinio'r prosesau sgorio a llunio rhestr fer ar gyfer ceisiadau gyda'r canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU
- yr amserlenni cyfyngedig pryd mae disgwyl i geisiadau gael eu cyflwyno, eu gwerthuso, eu cymeradwyo a'u cyflawni; a
- chyfathrebu ac ymgysylltu ag ymgeiswyr posibl ac aelodau etholedig.

Gellir gweld trafodaeth y Pwyllgor ar yr uchod yn ei gyfanrwydd ar wefan y Cyngor.

4.7 Ar ddiwedd y drafodaeth, cydnabu'r Pwyllgor y cymhlethdodau sy'n ymwneud â phroses y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Sicrhawyd y Pwyllgor bod y broses a ddefnyddiwyd wrth ymdrin â cheisiadau a llunio rhestr fer wedi bod yn un gadarn ac wedi ei dilyn mewn modd proffesiynol. Fodd bynnag, yr oedd pryderon ynglŷn â bregusrwydd agweddau ar y cyfathrebu am faterion y Gronfa Ffyniant Gyffredin gydag Arweinwyr Grwpiau, Grwpiau Ardal yr Aelodau ac aelodau'r Cyngor yn ehangach.

4.8 O ganlyniad, wrth argymell i'r Cabinet bod ei benderfyniad ar 25 Ebrill 2023, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r prosiectau sydd ar y rhestr fer a luniwyd gan y Grŵp Partneriaeth Craidd i'w cymeradwyo, yn cael ei gadarnhau, gwnaeth argymhellion pellach. Mae'r rhain yn ymwneud â rhannu gwybodaeth am drefniadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a chyfathrebu rheolaidd gyda'r holl aelodau etholedig ynglŷn â dyfarniad prosiectau a'r gallu i gyflawni wrth symud ymlaen.

4.9 Amcan y Pwyllgor wrth ffurfio'r argymhellion ychwanegol hyn yw cryfhau cyfathrebiad ac ymgysylltiad y Cyngor gyda phreswylwyr, busnesau a chymunedau ledled Sir Ddinbych. Mae sicrhau bod yr holl aelodau etholedig yn cael eu briffio'n llawn ar ffrydiau ariannu pwysig a'r penderfyniadau a wneir yn ymwneud â hwy yn eu galluogi i gyfathrebu'r rhesymeg y tu ôl i unrhyw benderfyniadau yn hyderus i breswylwyr a budd-ddeiliaid. Mae'r Pwyllgor felly'n gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r argymhellion a gyflwynwyd.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Gweler Adran 5 adroddiad y Cabinet dyddiedig 25 Ebrill 2023.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Gweler Adran 6 adroddiad y Cabinet dyddiedig 25 Ebrill 2023.

6.2. Gellir diwallu'r costau sy'n gysylltiedig â chymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Craffu o fewn cyllidebau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Gweler Adran 7 adroddiad y Cabinet dyddiedig 25 Ebrill 2023.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno casgliadau'r broses Graffu a'r argymhellion sy'n deillio ohoni.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Gweler Adran 9 adroddiad y Cabinet dyddiedig 25 Ebrill 2023.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Dylai unrhyw benderfyniad i gymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Craffu mewn perthynas â phenderfyniad gwreiddiol y Cabinet liniaru'r risg i'r Cyngor o ymateb niweidiol gan gymunedau a/neu sylw negyddol gan y cyfryngau i'r defnydd o gyllid y cyhoedd.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adrannau 21(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000; ac

11.2 Adran 7.4.2(a) o Gyfansoddiad y Cyngor, sy'n datgan "Gall Pwyllgorau Craffu adolygu a chraffu ar [benderfyniadau'r Cabinet]" ac Adran 7.4.2(d) sy'n datgan y gall y Pwyllgor "[wneud] argymhellion i'r Cabinet... sy'n deillio o ganlyniadau'r broses graffu."

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag